

# **Amgueddfa Cymru**

## **Polisi Datblygu'r Casgliad**

Paratowyd gan y Grŵp Gofal a Rheoli Casgliadau Hydref 2016  
Cymeradwywyd gan y Grŵp Ymchwil a Chasgliadau 16 Tachwedd 2016  
Cymeradwywyd gan yr Uwch Dîm Rheoli 23 Tachwedd 2016

Cyflwynwyd i Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru a chymeradwywyd ar 15 Rhagfyr 2016

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu o fewn tair blynedd i'w gymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Bydd yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru, yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i'r Polisi Datblygu'r Casgliad a goblygiadau newidiadau o'r fath i ddyfodol casgliadau.

## 1. Perthynas â pholisïau/cynlluniau eraill y sefydliad:

- 1.1. Mae Siarter Brenhinol Amgueddfa Cymru yn cyflwyno'r cylch gwaith cyffredinol ar gyfer diben yr Amgueddfa:

'... yn ddarostyngedig i delerau ein Siarter Atodol hon, dim ond ar gyfer ei hamcanion ("yr Amcanion") y defnyddir incwm ac eiddo'r Amgueddfa sef hyrwyddo addysg y cyhoedd:

(i) yn bennaf, drwy ddarlunio'n gyflawn wyddoniaeth, celfyddydau, diwydiannau, hanes a diwylliant Cymru neu sy'n berthnasol i Gymru, a

(ii) yn gyffredinol, drwy gasglu, cofnodi, diogelu, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau a gwybodaeth gysylltiedig, boed yn gysylltiedig â Chymru ai peidio, y bwriedir iddynt hyrwyddo gwella dealltwriaeth a hybu ymchwil.'

Er mwyn cyflawni hyn, mae gan yr Amgueddfa weledigaeth ar gyfer y cyfnod 2015–2025 sef 'Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau: 'trwy ein hamgueddfeydd a'n casgliadau, ysbrydoli pobl i feithrin eu hunaniaeth a'u lles; i ddarganfod, mwynhau a dysgu'n ddwyieithog a deall lle Cymru yn y byd.'

Mae Polisi Datblygu Casgliad Amgueddfa Cymru yn cyflwyno'r Strategaeth Datblygu'r Casgliad sy'n nodi'r uchelgais o ran casglu a'r dulliau a gaiff eu mabwysiadu i gasglu eitemau newydd ac adolygu'r casgliadau cyfredol dros y blynyddoedd nesaf.

- 1.2. Bydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru yn sicrhau bod y gweithgareddau caffael a gwaredu yn cael eu cyflawni'r agored ac eglur.
- 1.3. Mae gan Amgueddfa Cymru ddiben hirdymor ac mae'n cadw casgliadau er budd y cyhoedd, mewn perthynas â'i hamcanion datganedig. Felly, mae Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru yn derbyn yr egwyddor bod rhaid gosod rhesymau curadurol cadarn cyn ystyried caffael unrhyw beth i'r casgliad, neu waredu unrhyw eitem sy'n rhan o gasgliad yr Amgueddfa.
- 1.4. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y bydd eitemau yn cael eu caffael y tu allan i'r polisi datganedig cyfredol.
- 1.5. Mae Amgueddfa Cymru yn cydnabod ei chyfrifoldeb, wrth gaffael eitemau ychwanegol i'w chasgliadau, i sicrhau y bydd gofal am gasgliadau, trefniadau dogfennu a'r defnydd o gasgliadau yn bodloni gofynion Safonau Achredu'r Amgueddfa. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gweithdrefnau sylfaenol SPECTRUM er mwyn rheoli casgliadau. Bydd yn ystyried y cyfyngiadau ar gasglu yn sgil ffactorau fel staffio, storio a threfniadau gofalu am gasgliadau.

- 1.6. Bydd Amgueddfa Cymru yn cynnal diwydrwydd dyladwy ac yn gwneud pob ymdrech i beidio â chaffael, boed trwy brynu, rhodd neu gymynrodd, unrhyw wrthrych neu sbesimen oni bai bod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr neu swyddog cyfrifol yn fodlon bod yr Amgueddfa'n gallu caffael teitl dilys i'r eitem dan sylw.
7. Mewn achosion eithriadol, gall rhesymau ariannol fod yn gymhelliant pennaf i waredu. Gwerthu fydd y dull gwaredu felly, a hynny gan ddilyn y gweithdrefnau a amlinellir isod. Mewn achosion lle mai rhesymau ariannol yw'r cymhelliant dros waredu eitem, ni fydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru yn mynd ati i waredu tan y profir bod yr holl amgylchiadau eithriadol canlynol wedi'u bodloni'n llawn:
- bydd gwaredu'n gwella'r budd cyhoeddus a geir o weddill y casgliad yn y tymor hir yn sylweddol
  - ni fydd y gwaredu'n digwydd er mwyn creu refeniw tymor byr (er enghraifft, oherwydd diffyg yn y gyllideb)
  - gwaredu fydd yr ateb olaf posib ar ôl archwilio'r holl ffynonellau cyllid eraill yn drylwyr
  - mae ymgynghoriad eang â chyrrff y sector wedi'i gynnal
  - nid yw'r eitem dan ystyriaeth yn rhan o gasgliad craidd yr amgueddfa.

## 2. Hanes y casgliadau

Sefydlwyd Amgueddfa Genedlaethol Cymru trwy Siarter Brenhinol ym 1907. Roedd y casgliadau cyntaf o eiddo'r Cardiff Municipal Museum (a sefydlwyd yn wreiddiol ym 1868) ac fe'u trosglwyddwyd i'r Amgueddfa Genedlaethol newydd ym 1912. Roedd gan Amgueddfa Caerdydd rai casgliadau o bwys, yn enwedig casgliad Menelaus o gelf gyfoes Ewropeaidd a chasgliad Pyke Thompson o gelf a phorslen Ewropeaidd. Roedd y casgliad yn cynnwys set o gastiau o waith carreg Cymreig canoloesol hefyd ac eitemau archaeoleg, celf, hanes cymdeithasol a hanes natur eraill.

Ers ei sefydlu, mae'r Amgueddfa wedi bod yn weithgar ac arloesol yn casglu a datblygu ei chasgliadau yn ogystal â chreu portffolio o safleoedd ar hyd a lled y wlad, er mwyn arddangos ei chasgliadau a sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb. Roedd yr Amgueddfa wreiddiol yn cynnwys chwe adran gasglu: Hynafiaethau a Hanes; Daearreg a Mwynoleg; Botaneg; Sŵoleg; Celf; Diwydiannau. Y nod yn ystod y blynyddoedd cynnar oedd creu casgliad o natur wyddoniadurol, gyda chasgliadau cynnar pwysig wedi'u caffael trwy roddion, cymynroddion a benthyciadau. Dechreuodd rhai casgliadau eithriadol fel benthyciadau i'r Amgueddfa, gan gynnwys y casgliad o bwys rhyngwladol o gerfluniau a chelf argraffiadol ar fenthyg gan y chwirydd Gwendoline a Margaret Davies, ac a gymynroddwyd yn ddiweddarach. Roedd casgliadau eraill yn cynnwys casgliad John Dillwyn Llewelyn o ffotograffau cynnar a chasgliad Rippon o bryfed, cregyn

a mwynau a gaffaelwyd ym 1918. Ym 1930, cafodd Amgueddfa Hynafiaethau Caerllion, a'i chasgliad Rhufeinig pwysig, ei throsglwyddo i'r Amgueddfa gan Gymdeithas Hynafiaethau Sir Fynwy.

Roedd y 1940au a'r 50au yn gyfnod o dwf aruthrol gyda'r Amgueddfa'n derbyn rhoddion a chymynroddion go sylweddol – megis un larll Plymouth ym 1946, a roddodd Gastell Sain Ffagan, ynghyd â'i erddi a'i barc, er mwyn creu Amgueddfa awyr agored. Cafodd celc Llyn Cerrig Bach o fetelwaith yr Oes Haearn ei ddarganfod a'i gyfrannu yn ystod gwaith adeiladu ar faes awyr yn ystod y rhyfel ym Môn. Roedd cymynroddion pwysig yn cynnwys casgliad Syr William Goscombe John o baentiadau, darluniau a cherfluniau a chasgliad Melvill-Tomlin o folysgiaid, casgliad llyfrgell a phapurau cysylltiedig. Ym 1958, sefydlodd yr Amgueddfa ei harchif o straeon llafar, tafodieithoedd a thraddodiadau llafar yn Sain Ffagan.

Yn ystod y 1960au, cafodd sawl adeilad hanesyddol eu hailgodi yn Sain Ffagan gan gynnwys ffermdy Kennixton o fro Gŵyr. Ers hynny, mae casgliadau wedi'u datblygu trwy broiectau ymchwil yr Amgueddfa – yn eu plith, ffosilau Neanderthalaidd arwyddocaol o waith cloddio Ogor Pontnewydd a darganfyddiadau wrth gloddio safle newydd o Oes y Llychlynwyr yn Llanbedr-goch, Môn, a chasgliad Prifysgol Bangor o bryfed. Mae'r casgliadau Gwyddorau Naturiol wedi'u datblygu mewn meysydd fel mapio cynefinoedd morol ac arfordirol. Hefyd, mae gwaith ymchwil i greigiau caled a phalaeontoleg o'r cyfnod Is-Balaeosöig Cymreig wedi golygu bod eitemau newydd wedi'u derbyn i gasgliadau'r Amgueddfa.

Ym 1984, benthycwyd casgliad o waith celf yr ugeinfed ganrif gan Derek Williams i'r Amgueddfa, a defnyddiwyd arian o'i stad i sefydlu ymddiriedolaeth er mwyn parhau i'w ddatblygu a'i wella. Mae hyn wedi arwain at gaffael gweithiau celf newydd i'r Amgueddfa a datblygu a chryfhau'r casgliadau celf gyfoes.

Mae caffaeliadau pwysig eraill wedi'u prynu ers eu dynodi'n Drysor Darganfyddedig (ers 1996) neu'n Drysor. Mae'r rhain yn cynnwys celc arian o gyfnod y Rhyfel Cartref o Dregwynt, Sir Benfro, a chelc Burton o fetelwaith yr Oes Efydd.

Ym 1999, cafodd glofa Big Pit a'i chasgliadau cysylltiedig ei throsglwyddo i ofal yr Amgueddfa. Mae hyn wedi'n galluogi ni i ddychwelyd y casgliadau diwydiannol cyfredol o eitemau bach glofaol i'w cyd-destun gwreiddiol yn arddangosfeydd Big Pit.

Mae mwy a mwy o'n hymwelwyr ac aelodau'r cyhoedd yn casglu ar gyfer yr Amgueddfa. Mae rhai'n deillio o ddarganfyddiadau newydd ar hyd a lled Cymru, er enghraifft rhywogaeth newydd o ddeinosor Jwrasig, *Dracoraptor hanigani*, a ganfuwyd ger Penarth yn 2014. Mae cylch gwaith newydd ar gyfer Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn canolbwyntio bellach ar broiectau cydweithredol newydd gyda chymunedau a sefydliadau eraill y trydydd sector. Un o'r nodau yw gwella'r casgliadau hanes cymdeithasol mewn meysydd penodol. Er enghraifft, canlyniad project ar y cyd â Mencap Cymru yw cofnodi a chaffael eitemau

newydd sy'n gysylltiedig â hanes rhai o'r hen ysbytai meddwl ar hyd a lled Cymru.

### 3. Trosolwg o'n casgliadau cyfredol

Amgueddfa Cymru yw'r storfa genedlaethol o ddeunyddiau tri dimensiwn sy'n ymwneud â diwylliant a threftadaeth naturiol Cymru, boed yn naturiol neu wedi'i chreu, a deunyddiau rhyngwladol sy'n helpu i ddiffinio lle Cymru yn y byd. Dyma gorff amgueddfaol mwyaf blaenllaw Cymru; gyda chasgliadau sy'n cynnwys dros bedair miliwn o sbesimenau neu grwpiau, a safonau academaidd ac ysgolheictod staff, sydd ag enw da'n genedlaethol a rhyngwladol. Mae amrywiaeth ac ansawdd llawer o'n casgliadau ym meysydd y dyniaethau a'r gwyddorau fel ei gilydd yn golygu ein bod ni'n unigryw ymhlith amgueddfeydd cenedlaethol y DU. Mae Amgueddfa Cymru yn wahanol i amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol eraill y DU oherwydd amrywiaeth ein disgyblaethau – yn ehangach na phawb ar wahân i Amgueddfeydd ac Oriolau Gogledd Iwerddon efallai – ac oherwydd nifer y safleoedd sydd yn ein gofal. Mae Amgueddfa Cymru yn cyflawni i Gymru swyddogaethau cyfatebol holl Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Llundain, ac yn cadw'r casgliadau er budd pobl Cymru.

#### 3.1 Celf

Mae'r casgliad Celf yn cynnwys gweithiau celfyddyd gain a chymhwysol o'r hen fyd hyd heddiw. Mae'r pwyslais ar gelf o Gymru wedi'i ategu gan gasgliadau cadarn o gelf Brydeinig a rhai agweddau ar gelf Ewropeaidd, a rhywfaint o gynrychiolaeth ehangach o weddill y byd.

Cryfderau arbennig y casgliad:

- Paentiadau eithriadol o'r cyfnod Realaidd, Argraffiadol ac Ôl-argraffiadol Ffrengig, a cherfluniau gan Rodin a'i gyfoedion.
- Paentiadau o'w Ewropeaidd eraill o gyfnod y Dadeni i'r ugeinfed ganrif (nifer cymharol fach ond o safon uchel iawn).
- Celf Brydeinig o'r ddeunawfed ganrif, y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif.
- 'Cerflunwaith Newydd' o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.
- Celf gyfoes.
- Casgliad cynhwysfawr o gelf gan artistiaid o Gymru, o'r ddeunawfed ganrif hyd heddiw, gan gynnwys corff o waith sylweddol gan Richard Wilson, Thomas Jones, John Gibson, Penry Williams, Augustus John, Gwen John, David Jones a Ceri Richards.
- Casgliad personol Graham Sutherland.
- Gwaith gan John Piper.
- Portreadau o Gymry mewn sawl cyfrwng gwahanol.
- Tirluniau a chelfyddyd dopograffigol o Gymru.
- Casgliad sylweddol ac amrywiol o weithiau celf ar bapur.
- Ffotograffau hanesyddol, gan gynnwys portreadau a chelf gyfoes drwy'r lens
- Crochenwaith a phorslen a wnaed yn ffatrioedd y de rhwng y 1760au a'r 1920au.

- Porslen cyfandirol o'r ddeunawfed ganrif a llestri o Loegr o'r cyfnod canoloesol diweddar i'r presennol.
- Llestri arian o Loegr, o gyfnod y Dadeni i ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan gynnwys darnau o bwys ar gyfer noddwyr Cymreig
- Casgliad cynyddol o gelfyddyd gymhwysol fodern a chyfoes, yn enwedig cerameg ac arian.

### **3.2 Bywyd Gwerin**

Mae'r casgliadau Bywyd Gwerin yn amrywio o adeiladau hanesyddol wedi'u hailgodi i straeon llafar a recordiwyd yn y maes. Yn hanesyddol roedd yr Amgueddfa'n canolbwyntio ar gasglu enghreifftiau o bensaernïaeth o Gymru a oedd yn cynrychioli mathau gwahanol o adeiladau domestig a thechnegau adeiladu. Mae dodrefn brodorol Cymreig, eitemau dodrefnu, eitemau'n ymwneud â'r aelwyd, byd masnach, meddygaeth, cyfraith a threfn a chasgliadau tecstilau o'r unfed ganrif ar bymtheg i'r presennol yn creu casgliad o bwys.

Cryfderau penodol y casgliad yw:

- Adeiladau hanesyddol: 2 adeilad gwreiddiol yn y fan a'r lle – un ohonynt yn adeilad rhestredig Gradd 1 – a thros 60 o adeiladau sydd wedi'u datgymalu a'u hailgodi yn Sain Ffagan. Mae'n cynnwys casgliad da o ffermdai a bythynnod, adeiladau fferm a diwydiannol bach, ac ysguboriau. Hefyd, enghreifftiau da iawn o adeiladau rhanbarthol (domestig) a thechnegau adeiladu.
- Masnach: deunyddiau busnes a masnachol yn bennaf.
- Casgliadau sy'n ymwneud â meddygaeth, cyfraith a threfn ac eitemau eglwysig.
- Dodrefn brodorol: y casgliad gorau yn y DU, yn ogystal â chasgliad nodedig o eitemau horolegol.
- Casgliadau o wisgoedd a thecstilau, o'r unfed ganrif ar bymtheg i'r presennol, gan gynnwys dillad ffasiynol a dillad bob dydd, dillad gwaith ac ategolion o bob math.
- Bywyd y Cartref: casgliad cynhwysfawr o offer coginio, llaethdy, offer tŷ, llestri bwrdd, addurniadau a ffabrigau addurno
- Amaethyddiaeth: offer, cerbydau a pheiriannau amaethyddol yn dyddio o ddiwedd y ddeunawfed ganrif hyd at ganol y 1950au, naill ai wedi'u gwneud yng Nghymru neu â chysylltiadau cryf â Chymru.
- Casgliadau crefft sy'n cynrychioli bywyd gwaith y Gymru wledig a lled-ddiwydiannol, e.e. gwaith coed, gwaith lledr, crefftau gwaith metel, basgedwaith.
- Crefftau tecstilau fel cwiltio, brodwaith, sideru, teilwriaeth a chynhyrchion y diwydiant gwlan yng Nghymru.
- Casgliadau bywyd diwylliannol, yn ymwneud â cherddoriaeth, arferion a llên gwerin, sefydliadau addysgol a chymdeithasol, diwylliant poblogaidd, chwaraeon a theganau a gemau plant.
- Casgliadau archifol sy'n cynnwys yr archif ddiffiniol o draddodiadau a thafodieithoedd Cymru, ffilmiau gwaith maes, llawysgrifau ar ethnoleg

Gymreig, archif ffotograffau a phrojectau hanes llafar a grëwyd yn fewnol ac yn allanol.

### **3.3 Diwydiant**

Mae'r casgliadau diwydiant yn cynnwys adeiladau yn y fan a'r lle a safleoedd diwydiannol sy'n cynnwys glofa, gweithdai chwarel a melin wlân. Caiff y safleoedd arwyddocaol hyn eu hategu gan gasgliadau cysylltiedig sy'n manylu ar eu hanes, eu gweithrediad a'r broses gynhyrchu. Hefyd, mae'r casgliad yn cynnwys eitemau pwysig eraill sy'n gysylltiedig â'r diwydiant glo a diwydiannau trwm eraill Cymru. Yn fwy diweddar, mae casgliadau wedi canolbwyntio ar ddiwydiant cyfoes Cymru, yn enwedig y meysydd cynhyrchu ceir, teganau a chyfrifiaduron.

Cryfderau'r casgliad:

- Pwll glo rhestredig sy'n rhan o Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon.
- Casgliadau mwyngloddio cynhwysfawr o bwys rhyngwladol yn cynnwys goleuadau, offer llaw, cynhalbyst, dramiau, offer achub ac eitemau undebau llafur.
- Detholiad cynhwysfawr o fodolau sy'n dangos technegau a chyfarpar cloddio glo, gwaith haearn a dur.
- Amrywiaeth eang o ddogfennau sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o agweddau ar redeg a gweinyddu glofa, a deunyddiau undebau
- Offer llaw'r diwydiant metelaidd, cynhyrchion a samplau'r broses.
- Brics, teils a deunyddiau gwrthsafol a wnaed yng Nghymru.
- Grymoedd symudol, yn enwedig injans olew a nwy.
- Cynhyrchion y diwydiant modurol a wnaed yng Nghymru.
- Cynhyrchion diwydiannau ysgafn Cymru, yn enwedig o'r diwydiant teganau.
- Casgliad cyflawn bron o gyfrifiaduron o Gymru.
- Gweithdai chwarel rhestredig yn Llanberis gan gynnwys offer peirianeg yn y fan a'r lle, olwynion dŵr a Pelton sy'n dal i weithio, a chasgliad swmpus o batrymau ffowndri.
- Tŷ gwreiddiol y peiriannydd, a bythynnod chwarelwyr wedi'u hailgodi a'u dodrefnu.
- Inclên bwrdd wedi'i adfer yn gyfan gwbl ac sy'n dal i weithio
- Offer trin llechi â llaw, ffaniau cloddwyr wedi'i mecaneiddio o ddechrau'r ugeinfed ganrif, wagenni, locomotifau a chynhyrchion
- Darluniau a brasluniau o chwarelwyr wrth eu gwaith, gan M. E. Thompson.
- Adeiladau rhestredig y diwydiant gwllân yn Cambrian Mills, Dre-fach Felindre, gan gynnwys peiriannau gwreiddiol a pheiriannau eraill o felinau gwllân ledled Cymru.
- Tecstilau, samplau a chwiltiau gwlanen o Gymru, o'r ddeunawfed ganrif hyd heddiw.
- Casgliad o ddogfennau, yn arbennig llyfrynnau cwmnïau metelifferaidd a diwydiannau modern, papurau newydd cwmnïau, tystysgrifau cyfranddaliadau a dogfennau peirianeg sifil.
- Archifau'n ymwneud â Cambrian Mills.
- Llyfrau, cofnodion a phapurau seneddol; yn enwedig cyfres bron yn gyflawn o gyhoeddiadau'r Mines & Quarries Inspectorate, cyfnodolion cynnar y diwydiant nwy a thrydan, a gweithiau technegol ar rymoedd symudol.

- Casgliad sylweddol o bwys cenedlaethol o ffotograffau Cymreig yn ymwneud â diwydiannau, peirianeg ac archaeoleg ddiwydiannol Cymru.

### **3.4 Trafnidiaeth**

Mae'r casgliad trafndiaeth yn cynnwys dros 150 o fodelau o longau a ddefnyddiwyd oddi ar arfordir Cymru a 250 o bortreadau o longau. Mae'n cynnwys yr enghraifft gynharaf o gar yn eiddo i Gymro, Benz o 1900, enghreifftiau o'r Gilbern, yr unig gar a gynhyrchwyd yng Nghymru, cerbyd Cambrian Railways a thram ceffyl o Gaerdydd. Hefyd, ceir casgliad helaeth o drenau ar raddfa 7mm, sy'n darlunio'r rheilffyrdd cyn gwmpio a chyn gwladoli'r rheilffyrdd yng Nghymru.

Cryfderau'r casgliad:

- Cerbydau trenau o Gymru.
- Replica sy'n gweithio o locomotif rheilffordd cyntaf y byd (Penydarren 1804).
- Platiau tram a chhydrannau trac rheilffordd cynnar.
- Cychod bach oedd yn gweithio o gwmpas arfordir Cymru.
- Offer llaw ac effemera personol yn gysylltiedig â thrafnidiaeth tir a môr.
- Casgliadau o bwys cenedlaethol o fodelau a phortreadau o longau.
- Dogfennau a llyfrau sy'n ymwneud yn arbennig â rheilffyrdd a morwriaeth, yn arbennig casgliad cyflawn o'r Lloyd's Register of Shipping o ganol y 1830au hyd heddiw.
- Casgliad sylweddol o ffotograffau trafndiaeth sydd o bwys cenedlaethol.

### **3.5 Archaeoleg**

Y casgliadau archaeolegol yw'r brif dystiolaeth uniongyrchol sy'n sail i bob dehongliad o'n gorffennol materol. Mae'r casgliadau'n canolbwyntio ar gynhanes a hanes cynnar Cymru, llawer ohonynt yn deillio o waith cloddio archaeolegol ar hyd a lled Cymru. Mae eitemau o bwys wedi'u caffael drwy'r prosesau Trysor Darganfyddedig a Thrysor, yn enwedig metelwaith o'r Oes Efydd a gemwaith canoloesol.

Cryfderau'r casgliad:

- Arteffactau palaeolithig, ffawna Pleistosen a darganfyddiadau hominid, o ogofâu yng Nghymru, gan gynnwys Ogof Pontnewydd ac Ogof Pafiland.
- Casgliad o ddarganfyddiadau o waith cloddio aneddleoedd Mesolithig a Neolithig Cymru, beddrodau megalithig Neolithig a ffatrioedd bwyeill Graig Lwyd a Mynydd Rhiw.
- Casgliadau o ddarganfyddiadau claddu pwysig o'r Oes Efydd, darganfyddiadau mwyngloddio copr, plwm ac aur cynnar a chynhyrchion cysylltiedig, yn enwedig casgliadau cyfoethog o addurnau, offer ac arfau.
- Casgliadau wedi'u cloddio o fryngaerau'r Oes Haearn a llociau amddiffynnol o Gymru.
- Celf La Tène neu 'Geltaidd', gan gynnwys celc Llyn Fawr, celc addunedol Llyn Cerrig Bach, pentan haearn Capel Garmon a choron Cerrigydrudion.
- Casgliadau o bwys rhyngwladol o ddeunyddiau milwrol Rhufeinig o gaerau Isca (Caerllion) a'r cylch a Brynbuga.



- ❑ Casgliadau o ddarganfyddiadau yn sgil cloddio caerau atodol Rhufeinig Segontium (Caernarfon), Aberhonddu, Gelligaer, Caersws, Castell-nedd a Chasllwchwr.
- ❑ Darganfyddiadau o safleoedd sifilaidd Rhufeinig, fel fila Llanilltud Fawr, fferm Whitton a Chaer-went – y dref Rufeinig bwysicaf yng Nghymru.
- ❑ Safleoedd Rhufeinig diwydiannol a mwyngloddio yng Nghymru, gan gynnwys Holt, storfan waith yr Ugeinfed Lleng, a Dolaucothi, yr unig waith aur Rhufeinig hysbys yng ngwledydd Prydain.
- ❑ Cerrig arysgrifenedig y canoloesedd cynnar a cherflun carreg, gan gynnwys castiau.
- ❑ Casgliadau o dri safle canoloesol cynnar o bwys rhyngwladol, Dinas Powys, crannog Llyn Syfaddan a Llanbedr-goch.
- ❑ Casgliad canoloesol cynnar o weddillion dynol o Landochau.
- ❑ Casgliadau o safleoedd canoloesol, yn enwedig cestyll ac abatai pwysig Cymru.
- ❑ Cwch Magwyr o'r drydedd ganrif ar ddeg.
- ❑ Cerflun carreg gan gynnwys elfennau goroesol o ddrws y cabidyldy, Ystrad Fflur.
- ❑ Casgliad o emwaith aur ac arian o'r cyfnod canoloesol a diweddarach ac eitemau unigol o bwys eiconig neu genedlaethol.

### **3.6 Niwmismateg**

Mae'r casgliad Niwmismateg wedi'i ddatblygu trwy brynu a chaffael celciau arian bath drwy'r prosesau Trysor Darganfyddedig a Thrysor.

Cryfderau'r casgliad:

- ❑ Casgliad cyffredinol o arian bath o'r cyfnod Groegaidd hyd heddiw. Rhai meysydd o bwys cenedlaethol/rhyngwladol, yn deillio o gelciau ac o waith casglu penodol hefyd.
- ❑ Arian bath o Loegr a gwledydd Prydain, yn enwedig o gyfnod y Sacsoniaid, y Normaniaid ac arian bath canoloesol diweddarach o fathdai Cymreig ac eraill o orllewin Prydain.
- ❑ Arian bath Rhufeinig o Gymru, yn enwedig celc Rogiet.
- ❑ Arian wedi'i fathu yng Nghymru o gyfnod Siarl I a chelc rhyfel cartref Tregwynt
- ❑ Tocins, arian papur a pharaniwmistica o Gymru
- ❑ Medalau – yn benodol rhai'n nodi gweithredoedd o ddewrder sifil – yn enwedig rhai sy'n ymwneud â Chymru neu orchestion y Cymry.

### **3.7 Daeareg**

Amgueddfa Cymru yw prif storfa ffosilau o Gymru; wedi'u hategu gan gasgliadau ymchwil o rannau eraill o'r DU ac o ffynonellau byd-eang. Felly, mae'r casgliad yn un o bwys a statws rhyngwladol, ac yn un o gasgliadau palaentolegol mwyaf y DU. Gan yr amgueddfa y mae'r casgliad mwyaf cynhwysfawr o gasgliadau mwynol a chreigiau sy'n ymwneud â daeareg Cymru.

Cryfderau'r casgliad:

- ❑ Anifeiliaid di-asgwrn-cefn o'r cyfnod Palaeosöig, yn enwedig trilobitau, braciopodau a chregyn deuglawr.

- Planhigion carbonifferaidd (Gwely Glo).
- Amonitau Jwrasig.
- Casgliad diffiniol a chynhwysfawr o fwynau o Gymru.
- Deunyddiau cyfeirio o bron bob safle mwyngloddio yng Nghymru.
- Aur Cymru, milerit Cymreig (o safon byd); fflworsbar Prydeinig a chasiterit y Byd.
- Casgliad sylweddol o sbesimenau arian brodorol o fwyngloddiau Kongsberg, Norwy.
- Casgliad helaeth o fwynau o Brydain, gan gynnwys rhai'n deillio o gasgliadau treftadaeth, a chasgliad ymchwil o ddeunydd Swydd Gaerlŷr.
- Casgliad Cyfeirio Creigiau Cymru, (yn cynnwys sbesimenau llaw a thoriadau petrolegol tenau) wedi'u caffael yn bennaf trwy waith maes yn ystod yr ugeinfed ganrif.
- Casgliadau ymchwil petrolegol Cymru, yn deillio o draethodau PhD a phapurau cyhoeddiedig.
- Casgliad Glo Cymru; a gasglwyd yn ystod yr ugeinfed ganrif o byllau oedd yn gweithio.
- Casgliad llechi Cymru.
- Casgliad o dyllau turio bas y De, gyda chofnodion a mapiau cysylltiedig.

### **3.8 Sŵoleg**

Cryfderau'r casgliad:

- Coleoptera (yn enwedig cymynroddion Tomlin a Gardner).
- Diptera (amaethyddol, cysylltiadau cynhaliol a chwmpas Palearctig)
- Hemiptera (amaethyddol, cysylltiadau cynhaliol a chwmpas Palearctig)
- Lepidoptera (gloynnod byw o Brydain a thros y byd, gwyfynod o Brydain).
- Casgliad tramor cynhwysfawr o deuluoedd pryfed.
- Molysgiaid, yn enwedig Molysgiaid y Byd yng nghasgliad Melvill-Tomlin a'r llyfrgell gysylltiedig.
- Molysgiaid o Brydain a Chymru, gan gynnwys ffawna Prydain bron yn llawn.
- Molysgiaid tir ac an-forol yn enwedig rhai Affricanaidd a Phaelearctig.
- Molysgiaid dwygragennog o Gefnfor India a lleoliadau byd-eang.
- Sefalopodau.
- Molysgiaid Cwaternaidd byd-eang.
- Corynnod Prydeinig a Chymreig.
- Holl rywogaethau pryfed lludw Prydain.
- Gwiddon pridd o Gymru a thu hwnt.
- Casgliadau helaeth o anifeiliaid di-asgwrn-cefn benthyg o ddyfroedd Prydain, yn enwedig Môr Iwerddon.
- Casgliad helaeth o Polychaeta o Brydain a lleoliadau byd-eang.
- Casgliadau o fwydod parasitig pysgod morol.
- Sbesimenau wedi'u mowntio o'r rhan fwyaf o famaliaid Prydain a llawer o adar Prydain.
- Sbesimenau cabinet o adar, wyau adar a mamaliaid.

### **3.9 Botaneg**

Cryfderau'r casgliad:

- Casgliad mawr o blanhigion sy'n blodeuo, o Ewrop yn bennaf, gan gynnwys y casgliad mwyaf o blanhigion Cymreig sydd mewn bodolaeth, a chasgliad cysylltiedig o ffrwythau a hadau.
- Casgliad rhedyn â chwmpas rhyngwladol.
- Casgliad bach o sleidiau microsgop gwydr yn dangos toriadau o blanhigion yn bennaf.
- Casgliadau mawr o bryoffytau gan gyfeirio'n arbennig at Brydain, ond â chwmpas rhyngwladol
- Casgliad helaeth o gennau, Prydeinig yn bennaf, gan gyfeirio'n arbennig at Gymru.
- Casgliad mawr o bren a thoriadau pren a choed o bob cwr o'r byd.
- Casgliad o gynhyrchion planhigion o bwys economaidd, gan gynnwys bwydydd, tecstilau a deunyddiau fferyllol.
- Casgliad mawr o samplau a sleidiau wedi'u mowntio o samplau palynolegol Cwaternaidd.
- Casgliad Hyde o samplau palynolegol modern, wedi'u caffael gan Uned Asthma ac Alergedd Ysbyty Sili.
- Casgliad mawr o brintiau a darluniau o'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn bennaf, yn olrhain datblygiad darlunio botanegol.
- Casgliad archifol mawr o negatiffau tryloyw a gwydr o blanhigion a thirluniau, botanegwyr, a diagramau o gyhoeddiadau.
- Casgliad byd-eang o gardiau masnach stampiau post ar themâu botanegol.
- Casgliad unigryw o fodelau cwyr botanegol gywir o flodau, ffyngau a phlanhigion eraill.
- Modelau gwydr Blaschka o anifeiliaid di-asgwrn-cefn.

### **3.10 Llyfrgell**

Mae'r Llyfrgell yn cynnwys archif o destunau prin a hanesyddol yn ogystal â llyfrau sy'n ategu gwaith yr holl Adrannau curadurol.

Cryfderau arbennig y casgliad yw meysydd Molysgiaid, Archaeoleg Rufeinig, Fflora, Pensaerniaeth a Hanes Cymdeithasol/Diwydiannol.

## **4. Themâu a blaenoriaethau ar gyfer casglu yn y dyfodol**

Mae Amgueddfa Cymru wedi datblygu Strategaeth Datblygu'r Casgliad a fydd yn darparu'r fframwaith a'r cyd-destun ar gyfer adolygiad llawn o waith casglu'r dyfodol dros y tair blynedd nesaf. Dyma'r meysydd lle mae casglu'n digwydd ar hyn o bryd:

### **4.1 Celf**

- Celf hanesyddol (cyn 1900), modern (ar ôl 1900) a chyfoes gan artistiaid a gwneuthurwyr Cymreig, ac artistiaid a gwneuthurwyr sy'n gweithio yng Nghymru.
- Gweithiau sy'n adlewyrchu effaith Cymru, ei thirwedd, ei hanes a'i diwylliant ar artistiaid a gwneuthurwyr gweledol, o'r cyfnod ôl-ganoloesol hyd heddiw.
- Gweithiau sy'n adlewyrchu hanes noddi a chasglu celf yng Nghymru.
- Portreadau o fodelau Cymreig, sydd o deilyngdod esthetig.

- Celf Brydeinig, Ewropeaidd a rhyngwladol o werth esthetig ac addysgol.
- Gweithiau sy'n adlewyrchu amrywiaeth diwylliannol a chymdeithasol.
- Gweithiau wedi'u comisiynu gan artistiaid, lle mae cyfleoedd priodol yn codi.
- Celf gyfoes a modern gan artistiaid a gwneuthurwyr Cymreig, ac artistiaid a gwneuthurwyr sy'n gweithio yng Nghymru (gyda chymorth Ymddiriedolaeth Derek Williams yn arbennig);
- Celf gyfoes a modern gan artistiaid a gwneuthurwyr o'r tu hwnt i Gymru, yn enwedig Prydain ond gyda mwy o bwyslais rhyngwladol (gyda chymorth Ymddiriedolaeth Derek Williams ac Artes Mundi);
- Celf hanesyddol, ar raddfa gymharol fach ac wedi'i chyfyngu i Gymru'n bennaf, gan gynnwys ambell eitem treftadaeth o bwys.
- Celfyddyd gymhwysol fodern a chyfoes, yn enwedig cerameg ac arian.
- Ffotograffiaeth a dylunio.

#### **4.2 Bywyd Gwerin**

- Adeiladau, ailgreadau archaeolegol, arteffactau, ffotograffau, ffilm/fideo, tystiolaeth lafar a deunyddiau archifol sy'n gysylltiedig â chylch gorchwyl newydd Sain Ffagan fel Amgueddfa Hanes Genedlaethol, yn enwedig bywyd gwleidyddol Cymru a chasgliadau sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau sydd wedi byw yma yng Nghymru.
- Casgliadau ôl-1950 a chyfoes.
- Tystiolaeth lafar, ffotograffau, ffilm/fideo, dogfennau, arteffactau ac adeiladau cysylltiedig sy'n ein galluogi i ddarparu dull mwy cyfannol o gysylltu adeiladau hanesyddol â straeon y bobl a arferai fyw ynddynt a'u defnyddio.

#### **4.3 Hanes diwydiannol a thrafnidiaeth**

- Ffotograffau, ffilm, hanes llafar, gweithiau celf a dehongliadau eraill o fyd diwydiant a thrafnidiaeth Cymru, a'u cyrhaeddiad byd-eang.
- Dogfennau, cyhoeddiadau a deunyddiau ysgrifenedig cwmnïau yn ymwneud â diwydiant a thrafnidiaeth Cymru a'u cyrhaeddiad byd-eang.
- Gwrthrychau tri dimensiwn yn ymwneud â diwydiant a thrafnidiaeth Cymru a'u cyrhaeddiad byd-eang, yn enwedig cynhyrchion diwydiannol Cymru.
- Detholiad o gloddio a darganfyddiadau wyneb ac ar hap o gyd-destunau diwydiannol a thrafnidiaeth Cymru, o'r ddeunawfed ganrif hyd heddiw.
- Gwrthrychau, delweddau a dogfennau'n gysylltiedig â safleoedd diwydiannol Amgueddfa Cymru (Glofa Big Pit, Melin Wlân Cambrian, Chwarel Dinorwig).

#### **4.4 Archaeoleg**

- Archifau cloddfeydd cyflawn o Gymru (gwrthrychau, ceiniogau, gweddillion dynol, ecoffeithiau, samplau amgylcheddol wedi'u prosesu a nodiadau, darluniau a chofnodion ffisegol cysylltiedig).
- Eitemau o Drysorau o Gymru.
- Darganfyddiadau wyneb ac ar hap o Gymru.
- Archifau cloddfeydd o Gaerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg.

#### **4.5 Niwmismateg**

- Eitemau o Drysorau o Gymru.
- Darganfyddiadau unigol o arian bath hynafol, canoloesol a'r cyfnod modern cynnar o Gymru.

- Tocins hanesyddol, arian papur a deunyddiau niwmismateg eraill yn gysylltiedig â Chymru.
- Arian cyfredol.
- Medalau coffa a gwobrau'n gysylltiedig â Chymru a gorchestion y Cymry.

#### **4.6 Botaneg**

- Fflora planhigion fasgwlar o Gymru a'r gororau.
- Planhigion fasgwlar sy'n ategu ein cryfderau a'n diddordebau ymchwil (Heboglys, Llwyn Mwyar, Cerddinen, Rhododendron, planhigion arctig-alpinaidd, Glaswelltau).
- Bryoffytau Ynysoedd Prydain (gan gynnwys sbesimenau o raglen gofnodi'r British Bryological Society).
- Mwsoglau'n gysylltiedig ag ymchwil cyfredol (teulu Lembophyllaceae a rhywogaethau cysylltiedig).
- Diatomau dŵr croyw o Gymru a'r gororau.
- Rhywogaethau ymledol/anfrodorol.

#### **4.7 Pryfeteg**

- Datblygu'r casgliad Prydeinig mewn meysydd prin.
- Cwblhau'r broses o gaffael casgliad Hemiptera Rauno Linnavuori.
- Rhywogaethau sy'n ymwneud â chryfderau'r meysydd ymchwil a chasglu: Hemiptera a Diptera.

#### **4.8 Bioamrywiaeth Anifeiliaid Di-asgwrn-cefn**

- Molysgiaid a Polychaeta Prydeinig, Ewropeaidd a byd-eang mewn perthynas â chryfderau'r casgliadau, arbenigedd, cronfeydd data ar-lein ac adnoddau tacsonomeg (e.e. cregyn deuglawr morol Prydeinig), a blaenoriaethau ymchwil a chyfluoedd datblygu (gan gynnwys grantiau a chydweithrediadau).
- Molysgiaid a Polychaeta o bwys cenedlaethol neu ryngwladol (e.e. sbesimenau teip, gwyddonol, hanesyddol neu addysgol).
- Anifeiliaid di-asgwrn-cefn morol, dŵr croyw a daearol eraill o bwys cyfredol.
- Rhywogaethau ymledol/anfrodorol (daearol, dŵr croyw a morol).

#### **4.9 Mwynoleg a Phetroleg**

- Mwynau o Gymru.
- Mwynau sy'n gysylltiedig â chasglwyr pwysig o Gymru.
- Mwynhau o berthnasedd cymdeithasol.
- Cerrig adeiladu sy'n berthnasol i amgylchedd adeiledig Cymru neu wedi'u cloddio'n hanesyddol yng Nghymru.
- Sbesimenau mwynau a chreigiau sy'n helpu'r cyhoedd i ymgysylltu â phetroleg a mwynoleg.
- Casgliadau sy'n deillio o ymchwil i ddaeareg Cymru sy'n darparu adnodd ymchwil.

#### **4.10 Palaeontoleg**

- Ffosilau sy'n cynrychioli hanes bywyd yng Nghymru.
- Ffosilau o ardaloedd â chysylltiad daearegol â Chymru.
- Sbesimenau sy'n cynrychioli datblygiadau pwysig yn hanes esblygiad neu gadwraeth eithriadol.

- Teipffosilau a ffosilau ffigurrog o Gymru ac ardaloedd cysylltiedig.
- Casgliadau palaeontolegol â chysylltiad hanesyddol â Chymru.

#### **4.11 Fertebrata**

- Fertebratau oportiwnistaidd neu achlysurol o bwys cenedlaethol neu amserol (gan gynnwys prynu).

### **5. Themâu a blaenoriaethau ar gyfer ad-drefnu a gwaredu**

5.1 Mae Amgueddfa Cymru yn cydnabod y bydd yr egwyddorion ar gyfer pennu blaenoriaethau ad-drefnu a gwaredu, yn cael eu penderfynu drwy broses adolygu ffurfiol sy'n nodi pa gasgliadau sydd wedi'u cynnwys a'u hepgor o'r adolygiad. Ni fydd canlyniad yr adolygiad ac unrhyw waith ad-drefnu yn lleihau ansawdd nac arwyddocâd y casgliad a bydd yn arwain at gasgliad sy'n cael ei reoli'n dda ac yn haws i'w ddefnyddio.

5.2 Bydd y gweithdrefnau a ddefnyddir yn bodloni'r safonau proffesiynol. Bydd y broses yn un agored, tryloyw ac yn cael ei chofnodi. Bydd cysylltiadau cyfathrebu clir â rhanddeiliaid allweddol am y canlyniadau a'r broses.

5.3 Isod ceir rhestr o'r casgliadau hynny y gellir eu hadolygu ar gyfer ad-drefnu a gwaredu. Mae'r Strategaeth Datblygu'r Casgliad yn manylu ar y dulliau y bydd Amgueddfa Cymru yn eu defnyddio i bennu blaenoriaethau ac unrhyw themâu ar gyfer ad-drefnu a gwaredu a'r egwyddor a ddefnyddir i benderfynu ar hyn. Hefyd, gellir gwaredu am resymau cyfreithiol, diogelwch neu ofal a chadwraeth (e.e. pethau wedi'u hysbeilio, eu heffeithio gan blâu, dychweledigion).

#### *5.3.1 Bywyd Gwerin*

Casgliadau y gellid eu had-drefnu:

- Casgliad o dapiau wedi'u rhag-gofrestru o ddarllediadau radio, pe gellid eu trosglwyddo naill ai i archifau'r Llyfrgell Genedlaethol neu'r BBC.
- Eitemau dyblyg neu eitemau mewn cyflwr gwael y gellid eu hystyried ar gyfer y casgliadau trin a thrafod neu i'w defnyddio mewn arddangosiadau agored.

#### *5.3.2 Diwydiant*

Casgliadau sydd naill ai'n cael, neu y gellid, eu had-drefnu:

- Adolygiad (parhaus) o wrthrychau mawr, gan ymgynghori â'r holl safleoedd diwydiannol i greu rhestr o gasgliadau dyblyg y gellid eu gwaredu.
- Copïau wedi'u derbyn o ddeunyddiau archif (yn enwedig mapiau a chynlluniau), gyda'r rhai gwreiddiol yn cael eu cadw mewn archifdai sirol.

#### *5.3.3 Archaeoleg*

Casgliadau y gellid eu had-drefnu:

- Deunyddiau adeiladu swmpus di-haen neu ddiarddiad e.e. gwaith carreg, teils, brics.
- Samplau o bridd swmpus wedi'u prosesu o brojectau cloddio.

#### 5.3.4 Niwmismateg

Casgliadau y gellid eu had-drefnu:

- Sbesimenau cyfyngedig a brynwyd sy'n ddeunyddiau dyblyg gwirioneddol.

#### 5.3.5 Mwynoleg a phetroleg

Casgliadau y gellid eu had-drefnu:

- Casgliadau o greigiau dyblyg nad ydynt yn tarddu o Gymru nac yn cael eu harddangos (awgrymu dileu o'r casgliad a'u trosglwyddo i'r casgliad addysgu).

### 6. Fframwaith cyfreithiol a moesegol ar gyfer caffael a gwaredu eitemau

- 6.1 Mae Amgueddfa Cymru yn cydnabod ei chyfrifoldeb i weithio o fewn ffiniau Cod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd wrth ystyried caffael a gwaredu eitemau.
- 6.2 Bydd Amgueddfa Cymru yn gweithredu gyda diwydrwydd dyladwy ac yn gwneud pob ymdrech i beidio â chaffael – boed trwy bryniant, rhodd neu gymynrodd – unrhyw wrthrych neu sbesimen oni bai bod yr Ymddiriedolwyr neu'r swyddog cyfrifol yn fodlon bod yr Amgueddfa'n gallu caffael teitl dilys i'r gwrthrych neu'r sbesimen dan sylw. Bydd gan unrhyw gaffaeliadau y dogfennau priodol nid yn unig er mwyn pennu teitl cyfreithiol, ond hefyd er mwyn gallu cadw'r gwrthrychau neu'r sbesimenau yn y casgliadau parhaol mewn modd sy'n hwyluso mynediad ac ysgolheictod.
- 6.3 Bydd Amgueddfa Cymru yn rhoi ystyriaeth arbennig i fater ysbeilio gweithiau celf yn ystod cyfnod y Natsïaid, yr Holocost a'r Ail Ryfel Byd. Bydd yr amgueddfa yn defnyddio'r ddogfen *Spoliation of Works of Art during the Holocaust and World War II period: Statement of Principles and Proposed Actions*, a gyflwynwyd gan y Gynhadledd Cyfarwyddwyr Amgueddfeydd yn 1998, ac yn adrodd amdanynt yn unol â'r canllawiau (gweler y Polisi Gwaredu isod hefyd.)
- 6.4 Bydd Amgueddfa Cymru yn rhoi ystyriaeth arbennig i weddillion dynol. Ni fydd yn eu caffael os bydd unrhyw dystiolaeth amlwg neu debygol o'u symud o'u man claddu heb ganiatâd. Bydd yr Amgueddfa yn cydymffurfio â'r canllawiau yn y ddogfen *Yr Adran dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Cyfryngau: Canllawiau wrth Ofalu am Olion Dynol mewn Amgueddfeydd, 2005*.
- 6.5 Bydd Amgueddfa Cymru yn trin gweithiau celf, deunyddiau archaeolegol a sbesimenau hanes natur neu ddaearegol a gymerwyd ar gam gan eraill ac o dan amgylchiadau gwahanol mewn modd tebyg. Yn arbennig, ni fydd yr Amgueddfa yn caffael unrhyw wrthrych neu sbesimen oni bai ei bod yn fodlon na chafodd y gwrthrych neu'r sbesimen ei gaffael yn, neu ei allforio o'i wlad wreiddiol (neu unrhyw wlad arall wedyn lle gallai fod wedi'i berchnogi'n gyfreithlon) yn groes i gyfreithiau'r wlad honno (at ddiben y paragraff hwn, mae 'gwlad wreiddiol' yn cynnwys y Deyrnas Unedig).

- 6.6 Yn unol â darpariaethau Confensiwn UNESCO ar Ddulliau Gwahardd ac Atal Mewnforio, Allforio a Throsglwyddo Perchnogaeth Eiddo Diwylliannol yn Anghyfreithlon 1970, a gadarnhawyd gan y DU o 1 Tachwedd 2002, a Deddf Prynu a Gwerthu Gwrthrychau Diwylliannol (Troseddau) 2003, bydd Amgueddfa Cymru yn gwrthod unrhyw eitemau sydd wedi'u masnachu'n anghyfreithlon. Bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr neu'r swyddog cyfrifol yn cael ei lywio gan y canllawiau cenedlaethol ar gaffael eiddo diwylliannol yn gyfrifol, a gyhoeddwyd gan Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon San Steffan yn 2005.
- 6.7 O safbwynt deunyddiau biolegol a daearegol, ni fydd Amgueddfa Cymru yn caffael, trwy ddulliau uniongyrchol neu anuniongyrchol, unrhyw sbesimen wedi'i gasglu, ei werthu neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ffordd arall yn groes i unrhyw ddeddf genedlaethol neu ryngwladol ar ddiogelu bywyd gwyllt neu gadwraeth hanes natur neu gytuniad y DU neu unrhyw wlad arall, ac eithrio gyda chaniatâd datganedig yr awdurdod allanol priodol.
- 6.8 Gall sbesimenau biolegol sy'n tarddu o'r tu allan i'r DU, fod yn destun rheoliadau'r wlad wreiddiol ar fynediad a rhannu budd. Fel arfer, mae'n rhoi caniatâd i gasglu sbesimenau a'u defnyddio maes o law (e.e. dadansoddiad DNA neu ddefnyddio gwybodaeth draddodiadol). Bydd Rheoliadau Protocol (Cydymffurfio) Nagoya 2015 yn berthnasol mewn llawer o wledydd (gweler <https://www.cbd.int/abs/nagoya-protocol/signatories/default.shtml>) a dylid eu dilyn fel y bo'n briodol wrth gaffael sbesimenau er mwyn dangos diwydrwydd dyladwy a chydymffurfiaeth. O'r herwydd, dim ond os oes cydymffurfiaeth o'r fath y bydd Amgueddfa Cymru yn caffael a dangos y sbesimenau hyn.
- 6.9 Yn ogystal â'r dulliau diogelu uchod, ni fydd Amgueddfa Cymru yn caffael, trwy brynu neu fel arall, deunydd archaeolegol (gan gynnwys cerameg wedi'i chloddio) os yw Bwrdd yr Ymddiriedolwyr neu swyddog cyfrifol yn amau na ddilynwyd y gweithdrefnau cyfreithiol priodol fel hysbysu'r perchennog neu'r tiffeddiannwr am y darganfyddiadau, neu'r awdurdodau priodol yn achos trysor posib fel y diffiniwyd yn Neddf Trysor 1996. Rhaid cydymffurfio â Deddf Prynu a Gwerthu Gwrthrychau Diwylliannol (Troseddau) 2003 bob amser.
- 6.10 Bydd unrhyw eithriadau i'r cymalau uchod oherwydd y canlynol yn unig, sef bod Amgueddfa Cymru naill ai'n: gweithredu fel ystorfa wedi'i chymeradwyo'n allanol nad oes unrhyw dewis arall ar gyfer deunydd o darddiad lleol (y DU); neu'n caffael eitem o fân bwysigrwydd heb hanes o berchnogaeth ddiogel ond na chafodd ei masnachu'n anghyfreithlon ym marn arbenigwyr yn y maes; neu'n gweithredu gyda chaniatâd awdurdodau â'r awdurdodaeth ofynnol yn y wlad wreiddiol; neu fod ganddi dystiolaeth ddogfennol ddibynadwy bod yr eitem wedi'i hallforio o'i gwlad wreiddiol cyn 1970. Yn yr achosion hyn, bydd Amgueddfa Cymru yn ymddwyn yn agored a thryloyw wrth wneud penderfyniadau ac yn gweithredu'n unig gyda chydysyniad datganedig awdurdod allanol addas.



## 7. Polisiâu casglu amgueddfeydd eraill

7.1 Bydd yr amgueddfa yn ystyried polisiâu casglu amgueddfeydd a sefydliadau eraill sy'n casglu yn yr un meysydd neu mewn meysydd pwnc perthnasol. Bydd yn ymgynghori â'r sefydliadau hyn lle gall gwrthdaro buddiannau godi neu er mwyn diffinio meysydd arbenigedd, er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu diangen a gwastraff adnoddau.

7.2 Bydd Amgueddfa Cymru yn cyfeirio'n benodol at yr amgueddfeydd neu'r sefydliadau canlynol, ar sail yr eitem y cynigir ei chaffael.

- Amgueddfeydd cenedlaethol eraill y DU
- British Museum
- National Portrait Gallery
- National Gallery
- Tate
- National Maritime Museum
- The Science Museum Group
- Natural History Museum
- National Museums Liverpool
- Holl amgueddfeydd cofrestredig/achrededig Cymru
- Amgueddfeydd prifysgolion mawr y DU
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Archifau Cymru.

7.3 Mae Amgueddfa Cymru yn cadw casgliadau ar y cyd â'r Amgueddfeydd neu'r sefydliadau canlynol:

- National Gallery
- National Portrait Gallery
- Tate
- The Captain Cook Museum
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- National Museums Liverpool
- Bristol Museum & Art Gallery
- Plymouth Museum & Art Gallery
- BBC

## 8. Deunyddiau archifol

8.1 Gan fod Amgueddfa Cymru yn cadw archifau, gan gynnwys ffotograffau ac effemera print, bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cael ei lywio gan y Cod Ymarfer ar Archifau ar gyfer Amgueddfeydd ac Orielau'r DU (3ydd argraffiad, 2002).

## **9. Caffael**

- 9.1 Bydd angen cynnal asesiad llawn o'r effaith ar gasgliadau cyn pob caffaeliad posib, a chraffu ar ddatganiadau yn ymwneud â gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy llawn.
- 9.2 Mae'r polisi ar gyfer cytuno ar gaffaeliadau o fewn Amgueddfa Cymru yn seiliedig ar werth ariannol. Rhaid cael caniatâd gan Lywodraeth Cymru er mwyn prynu unrhyw beth lle mae'r gost net i'r Amgueddfa dros £250,000.
- 9.3 Ni fydd Amgueddfa Cymru yn caffael unrhyw wrthrych neu sbesimen oni bai ei bod yn fodlon na chafodd y gwrthrych neu'r sbesimen ei gaffael yn, neu ei allforio o'i wlad wreiddiol (neu unrhyw wlad arall wedyn lle gallai fod wedi'i berchnogi'n gyfreithlon), yn groes i gyfreithiau'r wlad honno (at ddiben y paragraff hwn, mae 'gwlad wreiddiol' yn cynnwys y Deyrnas Unedig).
- 9.4 Yn unol â darpariaethau Confensiwn UNESCO ar Ddulliau Gwahardd ac Atal Mewnforio, Allforio a Throsglwyddo Perchnogaeth Eiddo Diwylliannol yn Anghyfreithlon 1970, a gadarnhawyd gan y DU o 1 Tachwedd 2002, a Deddf Prynu a Gwerthu Gwrthrychau Diwylliannol (Troseddau) 2003, bydd Amgueddfa Cymru yn gwrthod unrhyw eitemau sydd wedi'u masnachu'n anghyfreithlon. Bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr neu'r swyddog cyfrifol yn cael ei lywio gan y canllawiau cenedlaethol ar gaffael eiddo diwylliannol yn gyfrifol, a gyhoeddwyd gan Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon San Steffan yn 2005.

## **10. Gweddillion dynol**

- 10.1 Gan fod Amgueddfa Cymru yn cadw, neu'n bwriadu caffael, gweddillion dynol sy'n llai na 100 mlwydd oed, bydd yn cael y drwydded angenrheidiol dan Ddeddf Meinwe Dynol 2004 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth sydd mewn grym o bryd i'w gilydd.
- 10.2 Gan fod Amgueddfa Cymru yn cadw, neu'n bwriadu caffael, gweddillion dynol o unrhyw gyfnod, bydd yn dilyn gweithdrefnau Adran dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Cyfryngau yn ei Chanllawiau wrth Ofalu am Olion Dynol mewn Amgueddfeydd, a gyhoeddwyd yn 2005.

## **11. Deunyddiau biolegol a daearegol**

- 11.1 O safbwynt deunyddiau biolegol a daearegol, ni fydd Amgueddfa Cymru yn caffael, trwy ddulliau uniongyrchol neu anuniongyrchol, unrhyw sbesimen wedi'i gasglu, ei werthu neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ffordd arall yn groes i unrhyw ddeddf genedlaethol neu ryngwladol ar ddiogelu bywyd gwyllt neu gadwraeth neu hanes natur neu gytuniad y DU neu unrhyw wlad arall, ac eithrio gyda chaniatâd datganedig yr awdurdod allanol priodol.

## **12. Deunyddiau archaeolegol**

- 12.1 Ni fydd Amgueddfa Cymru yn caffael unrhyw ddeunydd archaeolegol (gan gynnwys cerameg wedi'i chloddio) o gwbl os yw'r corff llywodraethu neu swyddog cyfrifol yn amau na ddilynwyd y gweithdrefnau cyfreithiol priodol wrth gael gafael arno.
- 12.2 Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r gweithdrefnau'n cynnwys hysbysu perchennog y tir neu'r tiffeddiannwr am unrhyw ddarganfyddiadau, a'r awdurdodau priodol yn achos trysorau posib (h.y. y Crwner Trysor) yn unol â Deddf Trysor 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009).

## **13. Eithriadau**

- 13.1 Bydd unrhyw eithriadau i'r cymalau uchod oherwydd y canlynol yn unig, sef bod yr amgueddfa:
- yn gweithredu fel storfa wedi'i chymeradwyo'n allanol pan nad oes unrhyw ddewis arall, ar gyfer deunyddiau o darddiad lleol (y DU).
  - yn gweithredu gyda chaniatâd awdurdodau â'r awdurdodaeth ofynnol yn y wlad wreiddiol.

Yn yr achosion hyn, bydd Amgueddfa Cymru yn gwbl agored a thryloyw wrth wneud penderfyniadau ac yn gweithredu'n unig gyda chydysniad penodol datganedig allanol addas. Bydd yr Amgueddfa'n cofnodi pan fo'r eithriadau hyn yn digwydd.

## **14. Ysbeillio**

- 14.1 Bydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio canllawiau Ysbeillio Gwaith Celf yn ystod Cyfnod yr Holocost a'r Ail Ryfel Byd – Datganiad ar Egwyddorion ac Argymhellion, a gyhoeddwyd gan Gynhadledd Cyfarwyddwyr yr Amgueddfeydd Cenedlaethol ym 1998, ac yn adrodd arnynt yn unol â'r canllawiau.

## **15. Dychwelyd ac adfer gwrthrychau a gweddillion dynol**

- 15.1 Gall Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru, yn gweithredu ar gyngor staff proffesiynol yr Amgueddfa, benderfynu dychwelyd gweddillion dynol, gwrthrychau neu sbesimenau i'r wlad neu'r bobl wreiddiol. Bydd Amgueddfa Cymru'n gwneud penderfyniadau o'r fath fesul achos; o fewn ei sefyllfa gyfreithiol gan ystyried yr holl oblygiadau moesegol a'r canllawiau sydd ar gael.

15.2 Bydd gwaredu gweddillion dynol o Amgueddfa Cymru yn dilyn gweithdrefnau'r Canllawiau wrth Ofalu am Olion Dynol mewn Amgueddfeydd.

## 16. Gweithdrefnau gwaredu

16.1 Dylid dilyn Gweithdrefnau Sylfaenol SPECTRUM ar waredu.

16.2 Bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cadarnhau ei bod hi'n gyfreithiol rydd i waredu eitem. Bydd cytundebau ar waredu a wnaed gyda'r rhoddwyr yn cael eu hystyried hefyd.

16.3 Pan fydd Amgueddfa Cymru yn ystyried cael gwared ar wrthrych, bydd yn sefydlu a gafodd ei gaffael gyda chymorth sefydliad ariannu allanol neu beidio. Mewn achosion o'r fath, bydd angen dilyn unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r grant gwreiddiol. Gall hyn gynnwys ad-dalu'r grant gwreiddiol a chyfran o'r elw os caiff yr eitem ei gwaredu trwy ei gwerthu.

16.4 Os mai rhesymau curadurol sy'n gyfrifol am waredu eitem, bydd angen dilyn y gweithdrefnau isod a gallai'r dull gwaredu fod yn rhodd neu werthiant, neu pan nad oes unrhyw ddewis arall, ei dinistrio.

16.5 Bwrdd yr Ymddiriedolwyr fydd yn penderfynu gwaredu deunydd o'r casgliadau, ond dim ond ar ôl ystyried y rhesymau dros waredu'n llawn. Bydd ffactorau eraill yn cael eu hystyried hefyd, fel budd y cyhoedd, y goblygiadau i gasgliadau'r Amgueddfa a chasgliadau sydd yn nwylo amgueddfeydd a sefydliadau eraill sy'n casglu'r un deunydd neu ddeunydd mewn meysydd cysylltiedig. Bydd angen cyngor arbenigol a dylid cael safbwyntiau rhanddeiliaid fel rhoddwyr, ymchwilyr, cymunedau lleol a ffynhonnell ac eraill a wasanaethir gan Amgueddfa Cymru.

16.6 Cyfrifoldeb Bwrdd yr Ymddiriedolwyr fydd penderfynu ar waredu sbesimen neu wrthrych, boed trwy rodd, gwerthiant neu ei ddinistrio (yn achos eitem sydd wedi'i difrodi neu wedi dirywio gormod i fod o unrhyw ddefnydd at ddibenion casgliadau neu am resymau iechyd a diogelwch), gan weithredu ar sail cyngor staff curadurol a chadwraeth proffesiynol, ac ni ddylai fod yn benderfyniad gan y curadur neu reolwr y casgliad ar ei ben ei hun.

16.7 Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud i waredu deunydd o'r casgliad, rhoddir blaenoriaeth i'w gadw o fewn y parth cyhoeddus. Felly, yn y lle cyntaf, bydd yn cael ei gynig fel rhodd neu ei werthu'n uniongyrchol i Amgueddfeydd Achrededig eraill sy'n debygol o fod â diddordeb ynddo.

16.8 Os nad yw unrhyw Amgueddfa Achrededig eisiau caffael y deunydd ar ôl cael cynnig ei brynu neu fel rhodd, yna bydd y gymuned amgueddfeydd ehangach yn cael gwybod am y bwriad i waredu'r deunydd – fel arfer trwy hysbysiad ar wasanaeth rhestr ar-lein *Find an Object* Cymdeithas yr Amgueddfeydd, cyhoeddiad yn *Museums Journal* y Gymdeithas neu mewn cyhoeddiadau a gwefannau arbenigol eraill (os yw'n briodol).

- 16.9 Bydd cyhoeddiad yn ymwneud â rhodd neu werthiant yn nodi nifer a natur y sbesimenau neu wrthrychau dan sylw, ac ar ba sail y bydd y deunydd yn cael ei drosglwyddo i sefydliad arall. Rhoddir blaenoriaeth i fynegiant o ddiddordeb gan Amgueddfeydd Achrededig eraill. Byddwn yn caniatáu cyfnod o ddau fis o leiaf i sefydliadau fynegi diddordeb mewn caffael deunydd. Os na fydd unrhyw fynegiant o ddiddordeb ar ddiwedd y cyfnod hwn, gall yr Amgueddfa ystyried gwaredu'r deunydd i unigolion a sefydliadau eraill â diddordeb gan roi blaenoriaeth i sefydliadau yn y parth cyhoeddus.
- 16.10 Bydd unrhyw arian a gaiff Bwrdd yr Ymddiriedolwyr o waredu eitemau yn cael ei ddefnyddio'n unswydd ac yn uniongyrchol er budd y casgliadau. Fel arfer, mae hyn yn golygu prynu rhagor o ddeunyddiau. Mewn achosion eithriadol, efallai y gellir cyfiawnhau gwneud gwelliannau i ofal casgliadau er mwyn bodloni neu ragori ar ofynion Achredu yn ymwneud â risg o ddirywiad neu ddifrod i'r casgliadau. Bydd unrhyw arian iawndal a geir yn sgil difrodi, colli neu ddifa eitemau yn cael ei ddefnyddio yn yr un modd. Gofynnir am gyngor gan Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru lle bwriedir defnyddio'r arian i ofalu am gasgliadau.
- 16.11 Bydd elw gwerthiant yn cael ei ddyrannu mewn modd sy'n profi bod yr arian yn cael ei wario mewn ffordd sy'n cyd-fynd â gofynion y safon Achredu. Rhaid i'r arian fod yn gyfyngedig i gynaliadwyedd, defnydd a datblygiad hirdymor y casgliad.
- 16.12 Bydd angen cadw cofnodion llawn o'r holl benderfyniadau gwaredu a'r eitemau dan sylw, a gwneud trefniadau priodol ar gyfer cadw a/neu drosglwyddo'r dogfennau sy'n ymwneud â'r eitemau dan sylw, gan gynnwys cofnodion ffotograffig lle bo'n ymarferol, yn unol â Gweithdrefnau SPECTRUM ar ddad-dderbyn a gwaredu.

### **16.13 Gwaredu trwy gyfnewid**

- 16.13.1 Ni fydd yr amgueddfa yn gwaredu eitemau trwy gyfnewid.

### **16.14 Gwaredu trwy ddinistrio**

- 16.14.1 Os nad oes modd gwaredu gwrthrych trwy drosglwyddiad neu werthiant, yna gallai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr benderfynu ei ddinistrio.
- 16.14.2 Mae'n dderbyniol dinistrio deunydd o arwyddocâd cynhenid isel (copïau o eitemau wedi'u masgynhyrchu neu sbesimenau cyffredin heb darddiad arwyddocaol) os nas oes dull amgen addas o waredu ar gael.
- 16.14.3 Mae dinistrio'n ddull derbyniol o gael gwared ar wrthrych hefyd os yw ef mewn cyflwr eithriadol o wael, os oes risgiau iechyd a diogelwch uchel yn gysylltiedig ag ef neu os yw'n rhan o gais profi dinistriol cymeradwy a nodwyd ym mholisi ymchwil y sefydliad.

16.14.4 Lle bo'n angenrheidiol, dylid cael cyngor arbenigol i benderfynu ar y dull mwyaf addas o ddinistrio. Bydd staff wedi'u hyfforddi'n cynnal asesiadau risg iechyd a diogelwch fel bo'r angen.

16.14.5 Dylai aelod priodol o weithlu'r amgueddfa fod yn dyst i'r broses o ddinistrio gwrthrychau. Os nad yw hyn yn bosib, e.e. dinistrio sylweddau rheoledig, dylid cael tystysgrif gan yr heddlu a'i chadw yn y ffeil berthnasol am hanes y gwrthrych.